Cofnodion

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Medi 2021

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr W Routley (Cadeirydd), J Cleverly, Y Forsey, S Marshall, J Richards, T Suller, H Thomas, C Townsend and T Watkins

Yn bresennol: Chris Humphrey (Interim Strategic Director - People), Sally Ann Jenkins (Strategic Director - Social Services), Connor Hall (Cynghorydd Craffu), Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu) and Louise A Thomas (Swyddog Llywodraethu)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr L Lacey

---

1 **Ymddiheuriadau**

Cyng. L Lacey

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2021 fel rhai cywir.

4 **Gofal Preswyl Plant Mewnol**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant yr adroddiad a dweud fod hanes maith o blant yn gorfod gadael ardal eu hawdurdod lleol i gael gofal preswyl, ond ein bod yng Nghasnewydd ein bod yn ceisio mynd i'r afael â'r prinder cenedlaethol o lefydd gofal a chadw ein plant mor agos at gartref ag sydd modd. Yr oedd gennym ein portffolio ein hunain a buom yn cynnal ein cartrefi ein hunain am nifer o flynyddoedd, ac ymrwymo i ddarparu gofal preswyl o ansawdd dda.
Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor mai hwn oedd un o'r cynlluniau mwyaf gwerthfawr y bu'n ymwneud a hwy, a bod yr adroddiad yn adlewyrchu ymroddiad pawb oedd yn rhan. Dywedodd ein bod yn arwain y ffordd yng Nghymru, a bod eraill yn edrych ar ein llwyddiant fel esiampl o sut i wneud pethau'n dda. Yr oedd y ffordd newydd o weithio trwy Project Perthyn yn golygu nad oedd yr un drws ar glo ac nad oedd swyddfeydd am ein bod yn darparu awyrgylch gartrefol oedd mor agos i gartref teuluol ag oedd modd. Mae gennym agwedd 'cwtsh', gan ddeall angen plant i dderbyn cwtsh a dysgu yn eu tro am gyffwrdd corfforol priodol.

Nod Project Perthyn yw ennyn a chynnal ymddiriedaeth ein plant. Yr oedd y cyfleusterau hyn yn ‘gartrefi’ go-iawn i’r plant ac y mae sylwadau’r plant eu hunain yn arwydd o ymrwymiad y staff ac yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi’r dull o ofalu amdanynt.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

-A oedd y ddarpariaeth ar gael yn ddigonol i nifer ein plant sy’n derbyn gofal a pha ddarpariaeth sydd ar gael i anghenion amrywiol y plant hyn?

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant mai 368 o blant sydd gennym ar hyn o bryd, a bod y ffigwr hwn yn gyson. Yr oedd y mwyafrif helaeth o’r rhain mewn gofal maeth, a bu ymgyrch fawr i recriwtio gofalwyr maeth. Yr oedd nifer y rhai sy’n gorfod bod mewn gofal preswyl yn gymharol fach. Yr oedd grŵp bychan o blant gydag anghenion cymhleth iawn ac unedau mam a’i baban nad oes modd i ni wneud darpariaeth ar eu cyfer, ac sydd wedi gorfod cael eu gosod y tu allan i’r awdurdod lleol. Yr ydym yn agos iawn at fod yn llawn gyda’r hyn sydd ei angen o ran gofal preswyl yng Nghasnewydd heb ddim lleoliadau argyfwng ar hyn o bryd. Yr oedd lleoliadau brys mewn argyfwng yn her fawr i ni, ac yn faes y byddwn yn dal i edrych arno.

- Beth oedd y ddarpariaeth am ofal seibiant?

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y byddwn yn parhau i fod â phlant mewn gofal ac felly yn parhau i geisio’r ffyrdd gorau o ddarparu hynny. Cafodd Tŷ Oaklands drafferth yn ystod y pandemig i ddarparu gofal seibiant. Yr oedd 2 o blant yno angen gofal tymor hir, ond y gobaith oedd y byddai modd iddynt symud ymlaen erbyn diwedd y flwyddyn. Buom yn edrych yn barhaus ar fodelau o ofal seibiant. Comisiynodd Cyngor Dinas Casnewydd Dŷ Hafan ar adegau - mae hwn yn ddarpariaeth arbenigol dros ben. Hefyd yr oedd rhai ysgolion y tu hwnt i Gasnewydd yn darparu gofal seibiant a gofalwyr maeth penodol ar gyfer gofal seibiant, oedd yn meddu ar sgiliau arbenigol iawn.
Yr oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn ymdrechu i gael yr hyn oedd orau i’r plentyn a’r teulu. At y dyfodol, byddwn yn edrych ar ddarpariaeth ranbarthol bosib.

- Beth fyddai dyddiad agor Fferm Windmill a sefyllfa’r staff yn dilyn cau Tŷ Caergrawnt?

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm fod y gwaith ar Fferm Windmill yn cadw at yr amser ac y bydd yn agor ym mis Ionawr 2022.Yr oedd rheolwr newydd ei benodi i’r cartref, a rhagwelir y gall y Cynghorwyr ymweld ym mis Rhagfyr cyn yr agoriad.
Yn dilyn cau Tŷ Caergrawnt, yr oedd yr holl staff oedd yn dymuno aros wedi eu cadw a’u cyflogir yn rhywle arall. Ni fu unrhyw ddiswyddo gorfodol.

- Beth oedd y sefyllfa yn yr awdurdodau lleol cyfagos a beth yw arbedion cost ein model darpariaeth ni?

Atebodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod nifer yr awdurdodau lleol oedd â’u darpariaeth yn fychan iawn, felly pryd bynnag y byddai arnynt angen gwely preswyl, byddai’n rhaid iddynt ei brynu, ac yr oedd y gystadleuaeth fell yn llym iawn. Yr oedd Casnewydd ar adegau wedi cynnig gwely tymor-byr i awdurdod arall, am gost, ond yr oeddem yn ffodus iawn fod gennym ein darpariaeth ein hunain am fod hyn yn lliniaru’r pwysau rywfaint. Pwysleisiodd nad dewis rhad o bell ffordd oedd ein darpariaeth fewnol ni; yr oedd y costau’n uchel iawn, ond yr oedd cost lleoliadau yn enfawr, gydag un awdurdod yn Lloegr ar hyn o bryd yn talu dros 30 mil o bunnoedd yr wythnos am leoliad. Er bod rhai darparwyr yn y sector wirfoddol ac elusennau oedd yn darparu gofal, busnesau preifat oedd yn darparu’r rhan fwyaf o ofal, ar sail fasnachol. Hyd yn

oed â derbyn fod ein darpariaeth ni yn ddrud a'n bod wedi ymrwymo i gyllido a rhoi'r adnoddau priodol, o weithio allan, yr awgrym yw y byddwn yn arbed yn y tymor hir. At y dyfodol, dyma ddarn o waith y bydd angen edrych arno yn llawn er mwyn gweithio allan yr union gostau ac arbedion.

- Beth oedd y sefyllfa gyda nifer y gofalwyr maeth a rôl y gymuned yn ehangach?

Cafwyd hysbyseb teledu am Maethu Cymru, a hysbysebion ledled y ddinas ar ffurf baneri, posteri, etc. Cawsom fflyd o ymgeiswyr llynedd, ond y mae hyn wedi tawelu bellach, ond byddwn yn wastad eisiau mwy o geisiadau i fod yn ofalwyr maeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gwasanaethau Plant am ei chyflwyniad, a'i llongyfarch hi a'i staff am adroddiad cadarnhaol iawn.

5 **Adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 20/12**

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion gyflwyniad byr i'r adroddiad. Yr oedd ynddo wybodaeth am sut y llwyddwyd i gynnal gwasanaethau trwy gyfnod hynod heriol 2020/21. Er bod gwybodaeth am berfformiad yn yr adroddiad, yr oedd y system o adrodd am berfformiad yn newid wedi ei atal dros y cyfnod hwnnw oherwydd y pandemig, sy'n golygu nad oedd yr holl fanylion ar gael yn llawn. Felly ni fu modd cynnwys rhai o'r mesuriadau hanesyddol, ond byddai modd eu rhoi ar lafar yn y cyfarfod hwn, petai angen.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Gyda'r gofynion adrodd wedi newid, sut mae modd i ni wneud cymariaethau heb ffigyrau meincnodi?

Ateb y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion oedd bod yr holl fframwaith adrodd am berfformiad wedi newid oherwydd i Lywodraeth Cymru sylweddoli nad oedd y mesuriadau blaenorol yn rhoi iddynt y wybodaeth oedd arnynt ei angen. Nid oes unrhyw dargedau wedi eu gosod eto gan y bydd angen blwyddyn lawn o ddata i sefydlu meincnod am berfformiad y dyfodol. Yr oedd y fframwaith perfformiad wedi newid, felly byddai cymharu yn erbyn y flwyddyn flaenorol yn broblemus. Byddai'n synhwyrol felly trin y cyfnod hwn fel set waelodlin o ffigyrau i adeiladu setiau data'r dyfodol arnynt ac i gynnal tystiolaeth am lwyddiant, arferion da a phwysau ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

-Cafwyd cynnydd mewn asesiadau – pa fath o asesiadau oeddynt? Yr oedd tua 30-40% yn asesiadau am therapi galwedigaethol, a'r garfan fawr arall o bobl oedd y rhai oedd eisiau asesiad am ofal a chefnogaeth. Yn aml, nid oedd y teuluoedd yn sicr am ba fath o gefnogaeth fyddai ei angen, felly byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda hwy a'u teuluoedd i bennu pa fath o gefnogaeth oedd ei angen, boed yn ofal yn y cartref, yn y gymuned, gofal seibiant neu ofal preswyl. Er mai pobl hŷn oedd y rhan fwyaf o bobl fyddai'n destun asesiad, yr oedd hefyd oedolion o oedran gwaith, oherwydd anabledd corfforol neu feddyliol, neu iechyd meddwl. Yr oedd nifer y bobl a aseswyd gydag anawsterau iechyd meddwl wedi cynyddu o ryw draean yn ystod y cyfnod hwn, ac yr oedd peth o hynny i'w briodoli i'r pandemig a'r dirywiad yn lles meddyliol pobl. Cafwyd hefyd nifer sylweddol o bobl gyda dementia cynnar a dementia yr oedd modd ei reoli o'r blaen, ond fod cyfuniad o ffactorau cysylltiedig â'r pandemig ac ynysu cymdeithasol wedi golygu nad oedd hyn bellach yn wir.
Mewn ymateb i gwestiwn dilynol, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mai aelod o'r teulu yn aml fyddai'n cyfeirio pobl yr amheuwyd fod dementia arnynt i'w hasesu. Yr oedd pobl wedi dod ymlaen yn hwyrach oherwydd y pandemig ac felly, am fod eu cyflwr wedi dirywio, yr oedd eu hanghenion yn fwy cymhleth. Er ein bod yn ymdopi yng Nghasnewydd ac y byddai'r gefnogaeth oherwydd Covid gan LIC yn

parhau tan fis Mawrth 2022, yr oedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i weld sut i ateb yr her hon.

- Beth oedd y sefyllfa gydag asesiadau iechyd meddwl?
Y mae hwn yn wasanaeth sydd dan bwysau cyson, ac yn awr wedi gweld cynnydd o draean mewn asesiadau iechyd meddwl. Mae gennym gyfrifoldeb i ddarparu rota dyletswydd iechyd meddwl cymeradwy 7 diwrnod yr wythnos a'r tu allan i oriau; mae hyn yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill. Yr oedd prinder o bobl gyda'r hyfforddiant cywir, felly yr oeddem wedi ymrwymo i ddarparu yn fewnol, ond wedi gweld yn aml fod yr aelodau staff hyn, unwaith iddynt gymhwyso, yn symud ymlaen i awdurdodau eraill oedd yn gallu cynnig mwy o gymhellion i staff gyda'r cymwysterau addas. Gan fod yr arian i hyfforddi staff yn dod o Lywodraeth Cymru, nid oes modd i ni ychwanegu unrhyw gymalau clymu fyddai'n sicrhau bod y staff yn aros gyda'r awdurdod unwaith iddynt gymhwyso. Y mae gan Gasnewydd enw da fel cyflogwr, a chyfradd gadw dda, ond gyda phrinder cyffredinol o staff hyfforddedig, yr oedd y system yn wastad dan bwysau.

- Sut y bu cynllun talu'n ôl i'r gymuned y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithredu yn ystod y cyfnod hwn?

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y cynllun wedi dal ati yn ystod y pandemig, er mwyn ffordd wahanol. Yr oeddem wedi ceisio symud i ffwrdd oddi wrth y cynlluniau mwy traddodiadol a gwneud pethau oedd yn fwy ystyrlon o ran cynlluniau cymunedol. Er enghraifft, bu grwpiau o bobl ifanc yn rhoi pecynnau maldodi at ei gilydd i staff y GIG, a hefyd buont yn gofalu am randir. Y gobaith oedd y byddai'r newid yn y tymor hwy yn rhywbeth cadarnhaol ac yn helpu pobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad at eraill.

- Faint o bobl oedd yn ddigartref ar hyn o bryd a beth oedd yr heriau o ran dod o hyd i lety addas?

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y byddai'n cadarnhau ac yn adrodd am y nifer, gan fod y ffigyrau yn dibynnu ar ba ddiffiniad o 'ddigartref' oedd yn cael ei ddefnyddio. Yr Adran Tai oedd yn rhoi'r ffigyrau at ei gilydd, ac yr oedd rhai oedd yn ddigartref yn barhaol yn hytrach na rhai oedd, er enghraifft, yn symud o soffa i soffa ac felly ond yn ddigartref dros dro.
Serch hynny, yr oedd canfod llety parhaol i bobl yn gryn her, dim ond o ran y llety oedd ar gael ar hyn o bryd. Yn ystod y pandemig a thrwy ymdrechion cydweithwyr yn y timau tai, gwasanaethau cymdeithasol a chefnogaeth tai, heb sôn am gysylltu â phartneriaid a gwaith gyda'r sector wirfoddol, fe wnaethom yn siŵr ein bod yn gallu symud pobl i mewn i lety a'u cadw'n ddiogel. Yr her yn awr fydd ceisio trosi peth o hynny yn atebion tymor hir i gael pobl i lety parhaol, ynghyd â delio â rhai o'r heriau a olygodd eu bod yn y picil hwn yn y lle cyntaf: yr oedd cyffuriau ac alcohol yn faes lle'r oedd angen llawer o waith. Cynigiwyd llety i bawb, ond i rai, am amrywiaeth o resymau cymhleth iawn, naill ai nid oeddent wedi gallu aros yn y llety a gynigiwyd neu eu bod wedi gwrthod help.

-Pa ofal arbenigol fyddwn ni yn ei ddarparu i bobl â dementia?

Yr ydym wedi gwneud newidiadau i'r modd yr ydym yn darparu gwasanaethau dydd i'r henoed a chefnogaeth i bobl hŷn, ac yn benodol wedi rhoi darpariaeth a chefnogaeth arbenigol i bobl â dementia, ac y mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn canoli fwyfwy arno. Ochr yn ochr â hyn, yr oedd darparu seibiant a chefnogaeth i ofalwyr pobl â dementia yn hollbwysig. Darparwyd hyfforddiant arbenigol i'n staff, ac yr ydym hefyd

wedi gwella newid amgylchedd ffisegol ein cartrefi gofal i'w gwneud mor addas ag y gallwn i bobl â dementia.

-A oedd Casnewydd yn rhan o'r ymdrech i adsefydlu ffoaduriaid o Afghanistan?

Ar hyn o bryd, nid yw manylion y rhaglen adsefydlu yn hysbys, gan fod hynny yn rhan o gylch gorchwyl y Tîm Partneriaethau, er pan ddeuai yn fater o blant bregus, y byddai Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Dinas Casnewydd yn ymwneud â'r agwedd deuluol. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd ac yr oedd y Gwasanaethau Plant yn gweithio i gefnogi plant oedd yn ceisio lloches ac oedd heb neb gyda hwy. Rhagwelwn gynnydd yn nifer y plant sy'n cyrraedd o Afghanistan ac yn dod i'r porthladdoedd; mae nifer o blant yn awr wedi cael eu gosod gan y Swyddfa Gartref mewn gwestai, sy'n bell o fod yn foddhaol. Yr ydym yn edrych i weld sut y gallwn gynnig llety a chefnogaeth i'r plant fyddai'n cael eu cyllido gan y Swyddfa Gartref, er y byddai oblygiadau cost i'r awdurdod lleol oherwydd problemau staffio. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant i gyflwyno adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda phlant oedd yn ceisio lloches ac oedd heb neb gyda hwy, ac yr oedd y Cadeirydd yn croesawu hyn.
-Nododd Aelod y carai glywed gan Weinidogion y Llywodraeth yn y dyfodol.

-Sut ydym ni wedi addasu ein ffyrdd o weithio a beth oedd y sefyllfa yn y llysoedd?

Busnes fel arfer fu hi i lawer o swyddogaethau oedd yn wynebu'r cyhoedd, ond gan addasu i gyfyngiadau Covid a rhoi rheoliadau ar waith megis PPE, pellter cymdeithasol, etc. Bu mwy o weithio o gartref gyda chyfarfodydd dros Teams etc. a'r staff yn addasu i weithio yn fwy hyblyg. Bu'n haws cydgordio cyfarfodydd strategaeth ac yn fwy effeithlon eu cynnal yn rhithiol yn hytrach na cheisio cael y cyfranogwyr i gyd at ei gilydd, felly bu hyn yn welliant. Yr adborth oedd bod hyn yn fwy poblogaidd, felly at y dyfodol, mae'n debyg y byddai'r dull hybrid hwn o weithio yn parhau. Fodd bynnag, ni ddylid anwybyddu'r pwysau ar y staff, a byddai'n rhaid ystyried eu lles hwy dros y gaeaf, er mwyn gwneud yn siwr fod eu hiechyd meddwl yn cael sylw.
Yr oedd achosion llys oll wedi symud ar-lein ar ddechrau COVID-19 ac yr oedd problemau o hyd gyda gwahanol lwyfannau TG yn cael eu defnyddio. Un fantais oedd nad oedd yn rhaid i'n gweithwyr cymdeithasol dreulio oriau maith yn y llys, ond yr oedd achos dros geisio cael pobl yn ôl i'r llys ar gyfer rhai gwrandawiadau. I rai rhieni, yr oedd yn haws o lawer bod yn y llys a chlywed a deall beth oedd yn digwydd; agwedd gymysg oedd yn cael ei chymryd ar hyn o bryd ledled Cymru a Lloegr. Y nod ar gyfer datrys achosion yn y Llys Teulu oedd chwe wythnos ar hugain, ond bu cryn oedi i gyrraedd y targed hwn. Y cyfnod cyfartalog o aros i blant yn y llys oedd trideg pedair wythnos. Yng Nghasnewydd, cafwyd gostyngiad y nifer yr achosion yn y Llys Teulu, ond yr oedd y rhain yn achosion arwyddocaol oedd yn drawmatig iawn i'r staff ddelio â hwy, ac yn anffodus, nid oedd unrhyw welliant mewn amseroedd aros yn debygol am amser maith.

-Bu cryn danwariant mewn Gwasanaethau Oedolion a Chymuned oherwydd darpariaethau grantiau Covid. A fu'n bosib buddsoddi'r arian hwn a'i ddefnyddio yn rhywle arall?

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'r Aelod Cabinet fod y tanwariant wedi bod yn ganlyniad i grant sylweddol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ac amddiffyn gwasanaethau gofal, a gwelsom hefyd ostyngiad yn nifer yr henoed oedd dan ein gofal oherwydd i gyfradd y marwolaethau godi. Yr oedd arian y grant wedi ei dargedu'n benodol i atal cartrefi gofal rhag cau, ac yr oedd cyfyngiadau ynghylch ei ddefnyddio, felly ni fu modd i ni ddefnyddio'r gyllideb honno ar gyfer prosiectau cyfalaf. Yr oeddem wedi buddsoddi'r arian lle'r oedd orau, megis cyflogi mwy o staff mewn cartrefi gofal lle'r oedd modd, ac yr oeddem hefyd wedi uwchraddio'r system alwadau yn ein cartrefi

gofal. Fodd bynnag, ni fu modd i ni ymgymryd ag unrhyw ymrwymiadau tymor-hir fel codi cyflogau yn y tymor hir, gan mai arian tymor byr oedd y grant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chymuned am ei hadroddiad oedd yn dangos fod yr adran wedi dal ati i weithio'n dda dros ben yn ystod y pandemig.

6 **Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau**

Yr oedd y Pwyllgor am wneud y sylwadau canlynol wrth y Cabinet:

Adroddiad Gofal Preswyl

- Hoffai'r Pwyllgor gael cyfle i ymweld â Fferm Windmill cyn yr ail-agor i weld y newidiadau a wnaed ers eu hymweliad gwreiddiol.
- Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr oedd wedi ei osod allan yn dda.

Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

- Hoffai'r Pwyllgor fwy o gyd-destun am rai o'r ystadegau digartrefedd yn yr adroddiad, sef:
  - Pam fod y rhai y cynigiwyd llety iddynt wedi dewis ei adael?
  - Eglurhad am nifer y digartref a'r digartref ar y stryd yng Nghasnewydd, a sut y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn diffinio digartrefedd.
- Hoffai'r Pwyllgor nodi fod yr adroddiad cyffredinol a'u hymateb iddo yn gadarnhaol.

7 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu newidiadau i'r Blaen-Raglen Waith - sef newid dyddiadau'r cyfarfodydd i ddod. Cytunodd y Pwyllgor i newid y dyddiadau a'r amseroedd.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.53 pm